Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Papur Gwyn ar y farchnad fewnol

## Briff Ymchwil

Medi 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6313**
E-bost: **Nia.Moss@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Papur Gwyn ar y farchnad fewnol

## Briff Ymchwil

Medi 2020

**Awdur:**
Nia Moss, Rhun Davies, Gruffydd Owen, Hedydd Phylip, Gareth Thomas, Gareth Howells

**Trosolwg o'r papur:**
Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar farchnad fewnol y DU, gan nodi cynigion i ymgorffori Ymrwymiad newydd i Fynediad i'r Farchnad yn y gyfraith ar ddiwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r papur yn trafod sail resymegol Llywodraeth y DU, yn amlinellu elfennau allweddol y cynigion, ac yn trafod rhai o'r materion sy'n deillio o'r Papur Gwyn a'r modelu economaidd a ddefnyddir i'w ategu. Mae hefyd yn nodi ymatebion cychwynnol rhanddeiliaid i'r Papur Gwyn.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol......................................1**

**2. Sail resymegol Llywodraeth y DU ar gyfer marchnad fewnol y DU ..................................................................................... 3**

2.1. Pam mae angen marchnad fewnol yn y DU ......................................3

2.2. Amcanion ar gyfer marchnad fewnol y DU........................................4

**3. Cynigion y Papur Gwyn ar gyfer marchnad fewnol y DU ... 6**

3.1. Cyd-gydnabod .....................................................................................6

3.2. Peidio â gwahaniaethu ......................................................................6

3.3. Beth yw cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad? ...........7

3.4. Sut y caiff marchnad fewnol y DU ei llywodraethu? .......................8

3.5. Sut mae'n ymwneud â fframweithiau cyffredin ...............................9

**4. ........................................................... Rheoli cymorthdaliadau 11**

**5. Dadansoddiad cychwynnol o'r cynigion .................................12**

5.1. Safonau rheoleiddio...........................................................................12

5.2. Cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad.............................13

5.3. Gwaharddiadau a neilltuadau ..........................................................13

5.4. Cyfyngiadau ar y setliad datganoli presennol a newidiadau iddo 14

5.5. Llywodraethu a hawliau ....................15

5.6. Masnach .................... 16

5.7. Dynameg .................... 16

5.8. Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: .................... 17

5.9. Pwerau gwario .................... 17

5.10. Enghreifftiau o effeithiau posibl ar feysydd polisi datganoledig18

5.10.a Enghraifft Gofal Cymdeithasol ....................18

5.10.b Enghraifft cofrestru landlordiaid preifat ....................19

5.10.c Enghraifft microbelenni ....................20

5.10.d Enghraifft rheoliadau adeiladu ....................20

5.10.e Enghraifft labelu dŵr potel .................... 21

**6. Effaith economaidd rheoleiddio gwahanol ym mhob un o wledydd y DU .................... 22**

6.1. Effaith rhwystrau masnach rhwng gwledydd y DU ar Gynnyrch Domestig Gros ....................22

6.2. Masnach gan gwmnïau o Gymru ....................23

**7. Ymatebion ac adweithiau gan y llywodraethau a'r deddfwrfeydd.................... 25**

7.1. Llywodraeth Cymru ....................25

7.2. Llywodraeth yr Alban ....................26

7.3. Ymateb Llywodraeth y DU .................... 28

7.4. Ymateb deddfwrfeydd y DU .................... 28

7.4.a Senedd Cymru........28

7.4.b Senedd yr Alban........29

7.4.c Tŷ'r Cyffredin........30

7.4.d Tŷ'r Arglwyddi........31

**8.Atodiad 1: Marchnad sengl yr UE........33**

8.1. Sectorau wedi'u cysoni a sectorau heb eu cysoni........33

8.2. Cwmpas marchnad sengl yr UE........34

8.3. Llywodraethu'r farchnad sengl........35

# 1. Cyflwyniad a chrynodeb gweithredol

Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **Bapur Gwyn** yn gofyn am safbwyntiau ynghylch ei chynigion i ddeddfu ar weithrediad marchnad fewnol y DU. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 13 Awst.

Mae gweithrediad marchnad fewnol y DU yn cael ei lywodraethu gan gyfraith yr UE ar hyn o bryd. Ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020 ac wrth i rai o'r rheolau sy'n llywodraethu marchnad sengl yr UE edwino, bydd gan Lywodraethau'r DU fwy o hyblygrwydd i ymwahanu oddi wrth reolau a safonau'r UE. Mae Llywodraeth y DU yn mynegi pryder y gallai hyn greu rhwystrau newydd i fasnachu rhwng gwahanol wledydd y DU. Felly, mae'n cynnig ymgorffori Ymrwymiad newydd i Fynediad Cydfuddiannol yn y gyfraith. Mae'r cynigion wedi bod yn ddadleuol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wrth iddynt fynegi gwrthwynebiadau i effaith bosibl y cynigion hyn ar ddatganoli.

Mae'r Papur Gwyn yn rhoi trosolwg o rai o nodweddion allweddol y ddeddfwriaeth a sut y bydd yn gweithio ond nid yw'n cynnwys cymalau drafft nac yn darparu gwybodaeth fanwl am sut y bydd pob agwedd ar y cynigion yn gweithredu. Oherwydd hynny, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant ynghylch ei effeithiau posibl ond mae'r papur hwn yn nodi rhai o'r materion allweddol a allai fod yn bwysig i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sut fydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn atal ras i'r gwaelod yn y DU ar gyfer pethau fel bwyd a safonau cynnyrch?
- Pa effaith a gaiff y cynigion ar allu'r Senedd i ddeddfu mewn meysydd o dan ei chymhwysedd datganoledig, ac a fydd unrhyw gyfyngiadau newydd yn berthnasol yn ôl-weithredol i ddeddfwriaeth y Senedd sydd eisoes wedi'i phasio?
- A fydd y cynigion yn ymestyn cyrhaeddiad cyfyngiadau marchnad fewnol y DU y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes ar waith o dan reolau marchnad sengl yr UE?
- Sut y caiff marchnad fewnol y DU ei llywodraethu? Pa drefniadau rhynglywodraethol newydd a gaiff eu rhoi ar waith a sut y caiff anghydfodau rhwng pedair llywodraeth y DU eu datrys?
- A fydd gan unigolion a dinasyddion unrhyw hawliau newydd i wneud iawn am rwystrau i fasnachu o fewn marchnad fewnol y DU?
- Sut y bydd y ddeddfwriaeth a marchnad fewnol y DU yn ystyried newidiadau i economi'r DU dros amser ac a allai hyn arwain at unrhyw gyfyngiadau newydd

ar gymhwysedd datganoledig?

- A gaiff y llywodraethau datganoledig rôl ehangach yn y negodiadau ar fasnach ryngwladol o ystyried y pwysigrwydd y mae'r Papur Gwyn yn ei roi ar effeithiau'r rhwystrau yn y farchnad fewnol ar negodiadau masnach?
- Beth yw telerau'r adolygiad o bwerau gwario a amlinellir yn y Papur Gwyn? Pa bwerau gwario estynedig y mae Llywodraeth y DU yn ceisio eu cael ac a fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar bwerau presennol y llywodraethau datganoledig?

Mae adran 6 o'r papur hwn yn rhoi enghreifftiau darluniadol o sut y gallai'r cynigion yn y Papur Gwyn effeithio ar ddeddfwriaeth a phwerau datganoledig a'r cwestiynau y mae angen eu hateb cyn y gellir gwneud dadansoddiad cyflawn o'r newidiadau y gallai'r cynigion eu cyflwyno. Maent yn trafod meysydd megis gofal cymdeithasol, rheoleiddio landlordiaid preifat a labelu dŵr potel.

Mae'r papur hwn hefyd yn trafod y cynigion i gyflwyno mater a gedwir yn ôl newydd o reoli cymorthdaliadau, a'r modelu economaidd sy'n ategu Papur Gwyn Llywodraeth y DU.

# 2. Sail resymegol Llywodraeth y DU ar gyfer marchnad fewnol y DU

## 2.1. Pam mae angen marchnad fewnol yn y DU

Mae'r Papur Gwyn yn dadlau bod marchnad fewnol y DU wedi'i hymgorffori yng 'nghyfraith Prydain' ers dros dair canrif ac wedi bod yn ffynhonnell masnach ddi-rwystr ac agored ar draws y Deyrnas Unedig ers i'r Deddfau Uno ddod â Lloegr, Cymru a'r Alban at ei gilydd yn ffurfiol ym 1707.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod aelodaeth y DU o'r gymuned economaidd Ewropeaidd ar y pryd ym 1973 wedi gweld cyfraith Ewrop yn chwarae rhan fwy uniongyrchol wrth ddarparu sail ddeddfwriaethol economi [y DU]. **Mae'r Papur Gwyn** yn nodi:

> European directives and regulations, along with relevant judgments from the Court of Justice, replaced British law and took on an integral role in the legislative underpinning of the Internal Market.

Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr 2020, dechreuodd y DU ar gyfnod pontio lle y mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i reolau'r UE ac yn aelod o'r farchnad sengl a'r undeb tollau, yn unol â'r Cytundeb Ymadael. Ar ddiwedd y cyfnod pontio, ni fydd y DU yn cael ei rhwymo ar y cyd gan gyfraith yr UE mwyach.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi wrth i'r DU ddod allan o'r cyfnod pontio, a gadael trefn gyfreithiol yr UE, y bydd angen iddi ddeddfu er mwyn cynnal a gwarantu bod marchnad fewnol y DU yn parhau i weithio'n esmwyth.

**Marchnad sengl yr UE**

Er mwyn deall yn llawn y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn, mae'n bwysig ystyried rheolau marchnad sengl yr UE sydd wedi bod yn weithredol yn y DU drwy ei haelodaeth flaenorol o'r UE. Mae crynodeb manylach ynghylch sut y mae marchnad sengl yr UE yn gweithredu wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 o'r papur hwn.

Amcan marchnad sengl yr UE yw sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf yn symud yn rhydd o fewn aelod-wladwriaethau'r UE a rhyngddynt, tra'n lleihau neu'n dileu unrhyw rwystrau i fasnachu a symud, a chynnal lefelau uchel o warchodaeth i'r amgylchedd a defnyddwyr. Mae marchnad sengl yr UE, ar ei ffurf symlaf, yn gweithredu dau ddull sylfaenol i leihau rhwystrau rheoleiddio rhwng tiriogaethau. Y rhain yw cysoni safonau ar draws aelod wladwriaethau'r UE a, lle nad yw cysoni yn berthnasol, cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu nwyddau a gwasanaethau. Mae'r cysyniadau hyn wedi'u hesbonio ymhellach yn adran 3 o'r papur hwn.

Caiff ei llywodraethu gan gyfres o egwyddorion sylfaenol sydd wedi'u hymgorffori yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd sydd wedi datblygu a newid dros amser. Mae ganddi strwythur llywodraethu cymhleth ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop yn chwarae rhan arwyddocaol o ran ei gweithrediad a'i goruchwyliaeth.

## 2.2. Amcanion ar gyfer marchnad fewnol y DU

Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai prif amcan Llywodraeth y DU mewn perthynas â marchnad fewnol y DU yw gwarantu buddiannau economaidd busnesau, defnyddwyr a gweithwyr, gan weithio gyda graen cyfansoddiad y DU i gefnogi penderfyniadau datganoledig.

Mae'n nodi tri amcan cyffredinol:

- parhau i sicrhau cyfleoedd economaidd ar draws y DU;
- parhau i gynyddu cystadleurwydd a galluogi dinasyddion ledled y DU i fod mewn amgylchedd sydd y lle gorau yn y byd i wneud busnes; a
- pharhau i gefnogi lles, ffyniant, a diogelwch economaidd cyffredinol holl ddinasyddion y DU.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi tri nod ategol arall a dwy 'reol dylunio' i gefnogi ei amcanion cyffredinol.

Y tri **nod ategol** yw:

- parhau â masnach esmwyth rhwng pob rhan o'r DU;
- parhau i gystadlu'n deg ac atal gwahaniaethu, a;
- pharhau i ddiogelu busnes, defnyddwyr a'r gymdeithas sifil drwy eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r farchnad.

Y ddwy **reol ddylunio** yw:

- meithrin cydweithrediad a deialog, a;
- meithrin ymddiriedaeth a sicrhau gweithredu agored.

**Masnach**

Mae'r Papur Gwyn yn dadlau y bydd sicrhau bod y DU parhau i fod yn economi gydlynol ac integredig yn allweddol i feithrin yr holl gyfleoedd a ddarperir drwy fasnach ryngwladol. Honnir y bydd dull o'r fath yn gwneud y DU gyfan yn fwy deniadol i fuddsoddiad o dramor ac yn magu hyder partneriaid masnachu y DU ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae'n nodi y gallai diffyg strwythur marchnad cyfoes a chydlynol arwain at rwystrau economaidd yn atal neu'n llesteirio masnach mewn nwyddau, a gallai effeithio'n sylweddol ac yn andwyol ar wasanaethau. I'r gwrthwyneb, mae'r Papur Gwyn yn awgrymu bod system hawdd ei hesbonio ar gyfer rheoli marchnad fewnol y DU yn cefnogi atyniad parhaus gwlad i fuddsoddiad uniongyrchol o dramor.

# 3. Cynigion y Papur Gwyn ar gyfer marchnad fewnol y DU

Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori Ymrwymiad newydd i Fynediad i'r Farchnad yn y gyfraith ar gyfer marchnad fewnol y DU ar sail dwy egwyddor, sef cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu.

## 3.1. Cyd-gydnabod

Bydd cyd-gydnabod yn y cyd-destun hwn yn golygu y byddai nwydd neu wasanaeth sy'n bodloni'r gofynion rheoleiddio mewn un rhan o'r DU yn cael ei dderbyn mewn rhan arall o'r DU heb fod angen iddo fod yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion cydymffurfio pellach. Bydd cyd-gydnabod yn cynnwys nwyddau, cymwysterau proffesiynol a gwasanaethau. Byddai hyn yn golygu:

- bod nwyddau a gynhyrchir yn Lloegr i safonau Lloegr a bennwyd gan Lywodraeth y DU yn cael eu derbyn i'w gwerthu yng Nghymru heb fod angen bodloni unrhyw safonau ychwanegol neu wahanol sy'n bodoli yng Nghymru;
- gellid defnyddio cydymffurfiad â chymwysterau sy'n ofynnol i gael mynediad at broffesiwn mewn un diriogaeth i ddangos cydymffurfiad tuag at gael mynediad at y proffesiwn hwnnw mewn tiriogaeth arall; a
- byddai'r ddarpariaeth bresennol i gyd-gydnabod gwasanaethau yn cael ei dwyn yn glir o fewn system marchnad fewnol newydd y DU.

## 3.2. Peidio â gwahaniaethu

Bydd y cynigion sy'n ymwneud â pheidio â gwahaniaethu yn golygu na fydd llywodraeth mewn un rhan o'r DU yn gallu gwahaniaethu yn erbyn person, nwydd neu wasanaeth ar sail lleoliad neu breswylfa.  Er enghraifft, ni allai Llywodraeth Cymru bennu safonau uwch ar gyfer cynhyrchwyr a leolir yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban na'r hyn a bennwyd ar gyfer cynhyrchwyr yng Nghymru. Byddai'r enghraifft hon yn fath o wahaniaethu uniongyrchol.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried deddfu ar gyfer gwahaniaethu anuniongyrchol, lle mae cynhyrchydd o un wlad yn cael ei drin yn anffafriol o'i gymharu â gweithredwr lleol oherwydd natur y rheoliad sydd ar waith, yn hytrach na'i fod wedi'i dargedu'n benodol i'w atal rhag masnachu. Yr enghraifft a roddwyd yn y Papur Gwyn oedd pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofyniad bod llaeth

yng Nghymru  yn gallu teithio pellter penodol yn unig, byddai hynny, i bob pwrpas, yn golygu na fyddai'n bosibl gwerthu'r rhan fwyaf o laeth o weddill y DU yng Nghymru.

## 3.3. Beth yw cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad?

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y bydd yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad yn cwmpasu economi gyfan y DU ac yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau. Byddai hyn yn ehangach na chwmpas presennol marchnad sengl yr UE sy'n anghyflawn mewn rhai ardaloedd, yn enwedig gwasanaethau. Yn ôl y **Papur Gwyn**:

> Even in areas where specific powers are not returning, the absence of EU rules could make it easier for new barriers to arise.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu yn gweithio gyda'i gilydd. Ar gyfer nwyddau, bydd cyd-gydnabod o'r ddwy ochr yn dod yn rhagdybiaeth ddiofyn a rôl peidio â gwahaniaethu fydd ategu cyd-gydnabod.

Nid yw'r Papur Gwyn yn nodi y bydd rhai meysydd yn cael eu heithrio o'r Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad ond mae cwmpas y gwaharddiadau yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd eithriadau'n cynnwys pob maes a gedwir yn ôl, gwariant a threthiant, polisïau cymdeithasol sydd heb fawr o effaith ar y farchnad fewnol, a gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes. Nid yw'n glir a yw hyn yn cynnwys trethi datganoledig. Fodd bynnag, mae'r papur yn nodi hefyd y gallai peidio â gwahaniaethu fod yn berthnasol mewn rhai o'r meysydd hyn.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi y bydd angen cytuno ar unrhyw waharddiadau o'r cychwyn cyntaf ac yn gyffredinol, ni ddisgwylir iddynt newid.

Mewn perthynas â'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu, mae'r Papur Gwyn yn nodi na fyddai'n berthnasol mewn rhai sefyllfaoedd brys megis argyfwng o ran planhigion, anifeiliaid, neu iechyd cyhoeddus. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru wahardd da byw o Loegr pe bai achos o glwy'r traed a'r genau ac i'r gwrthwyneb.

Mewn perthynas â meysydd polisi a gedwir yn ôl, mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd yr eithriad hwn yn berthnasol i'r graddau y maent wedi'u cadw yn ôl/heithrio o dan y setliadau gwahanol yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad yn berthnasol nid dim ond i ddeddfwriaeth sylfaenol ar faterion perthnasol, ond i

bob rheoliad, gan gynnwys rheoliadau a wneir gan bob corff arall sydd â phwerau i wneud rheoliadau megis rheoleiddwyr darparwyr gwasanaethau.

## 3.4. Sut y caiff marchnad fewnol y DU ei llywodraethu?

### Cysylltiadau Rhynglywodraethol

Nid yw'r Papur Gwyn yn rhoi llawer o fanylion ynglŷn â pha ddulliau llywodraethu a sefydliadol a gaiff eu sefydlu i oruchwylio'r farchnad fewnol yn y DU. Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd dulliau rhynglywodraethol ar gyfer datrys anghydfodau yn cael eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn gallu mynd i'r afael ag anghytundebau posibl ynghylch gweithrediad y farchnad fewnol. Fel y nodir uchod, mae rheol dylunio 1 ar gyfer datblygu'r farchnad fewnol yn dweud y dylai annog cysylltiadau a chydweithredu rhynglywodraethol da gan gynnwys mwy o dryloywder rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig.

Nid yw'r Papur Gwyn yn nodi sut y bydd mecanweithiau rhynglywodraethol yn cael eu gwella na sut y byddant yn sicrhau mwy o dryloywder. Nid yw'n rhoi unrhyw fanylion ynghylch sut y caiff anghydfodau eu datrys a phwy fydd yn gyfrifol am eu datrys. Nid yw'n pennu amserlen ar gyfer pryd y byddai gwelliannau o'r fath yn cael eu gwneud na sut y byddai gwelliannau o'r fath yn cael eu cyflawni, e.e. a fyddent yn cael eu cynnwys o fewn memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng llywodraethau neu'n cael ei ymgorffori yn y ddeddfwriaeth mewn rhyw ffordd.

Mae'r Papur Gwyn yn dweud y bydd esblygiad a ffurf gyffredinol marchnad fewnol y DU yn cael eu goruchwylio gan Senedd y DU ond nid yw'n sôn am rôl i'r deddfwrfeydd datganoledig yn hyn o beth. Mae'n sôn am gydberthynas rhwng y deddfwrfeydd datganoledig a phwyllgor arbenigol annibynnol fel un o'r opsiynau o ran y ffordd y gallai swyddogaethau annibynnol yn y farchnad fewnol weithio.

### Swyddogaethau annibynnol

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bwriad Llywodraeth y DU i sefydlu corff newydd neu bwyllgor arbenigol i ymgymryd â dwy swyddogaeth annibynnol mewn perthynas â'r farchnad fewnol.

Bydd yn gyfrifol am: fonitro a chynghori ar iechyd ac esblygiad y farchnad fewnol, gan ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar y pwnc hwn, a chasglu barn busnesau a rhanddeiliaid ynghylch gweithrediad y farchnad fewnol. Fodd bynnag, mae'r Papur Gwyn yn glir na fydd yn ail-wneud swyddogaethau'r Comisiwn

Ewropeaidd yn llawn mewn perthynas â marchnad sengl yr UE, ac ni fydd ychwaith yn gwneud penderfyniadau trydydd parti sy'n gwrthdroi gweithredoedd llywodraethau etholedig yn uniongyrchol.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth annibynnol gyntaf o oruchwylio iechyd y farchnad fewnol; mae'r Papur Gwyn yn nodi y byddai'r corff annibynnol yn cael y dasg o ddarparu cyngor arbenigol ar effaith cynnig ar y farchnad fewnol. Bydd hefyd yn gallu rhoi cyngor i ddeddfwrfeydd y DU yn ogystal â'r llywodraethau. Bydd yr asesiadau hyn yn cwmpasu nid yn unig effeithiau lleol ond hefyd effeithiau cadwyni cyflenwi ar draws y DU.

O dan y rheolau sy'n llywodraethu marchnad sengl yr UE, mae'n ofynnol i aelod-wladwriaethau hysbysu'r Comisiwn a'i gilydd wrth gymryd camau perthnasol mewn sectorau nad ydynt wedi'u cysoni. Nid yw'n glir yn y Papur Gwyn a fyddai'n ofynnol i lywodraethau yn y DU hysbysu'r corff annibynnol neu ei gilydd neu a fyddai dadansoddiadau'n cael eu darparu ar gais. Nid yw'n glir ychwaith a allai un llywodraeth neu ddeddfwrfa wneud cais am ddadansoddiadau annibynnol o gynigion gan lywodraeth neu ddeddfwrfa arall o fewn y DU.

Mewn perthynas â'r swyddogaeth annibynnol o ymgysylltu â rhanddeiliaid, byddai'r corff yn gyfrifol am wrando ar ymholiadau gan ddinasyddion a busnesau ynghylch swyddogaeth y farchnad neu gynnig, a bydd yn cael y dasg o gasglu tystiolaeth o ymwahanu rheoleiddiol niweidiol. Nid yw'r Papur Gwyn yn nodi beth fyddai'r term niweidiol yn ei olygu.

## 3.5. Sut mae'n ymwneud â fframweithiau cyffredin

Er mwyn osgoi gwahaniaeth polisi sylweddol yn y DU ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben, mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi cytuno bod **angen fframweithiau cyffredin ar draws y DU i sicrhau cysondeb a chydlyniad** ar draws meysydd polisi penodol a gwmpaswyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE. Mae'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r rhaglen a pherthynas y fframweithiau â'r cynigion hyn a chytundebau rhyngwladol yn cael eu trafod yn ein **papur diweddar gan Ymchwil y Senedd** ynglŷn â'r mater.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro y bydd y rhaglen fframweithiau cyffredin yn creu proses rynglywodraethol ar gyfer datblygu polisi a gwneud penderfyniadau, ac yn darparu lefelau uchel o aliniad rheoleiddiol mewn meysydd polisi penodol ynghyd â rolau a chyfrifoldebau pob gweinyddiaeth.

Fodd bynnag, mae'r Papur Gwyn yn dadlau na all fframweithiau cyffredin ar eu

pen eu hunain warantu uniondeb y farchnad fewnol yn ei chyfanrwydd. Gan eu bod yn tueddu i fod yn benodol i'r sector, mae'r Papur Gwyn yn dweud nad ydynt yn mynd i'r afael â rheoleiddio'r economi yn ei gyfanrwydd nac effeithiau cronnol ymwahanu, h.y. canlyniadau gwahaniaethau mewn rheoliadau mewn un sector sy'n effeithio ar sectorau eraill.

Nid yw'n glir a fyddai ymwahanu a ddeddfir mewn unrhyw un o bedair tiriogaeth y DU ac a ganiateir gan fframweithiau cyffredin yn gallu cael ei ddal yn ddiweddarach gan yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad. Fel y nodwyd uchod, o dan gyfraith yr UE, pan fo cysoni wedi digwydd, ni fyddai'r egwyddor o gyd-gydnabod yn berthnasol.

# 4. Rheoli cymorthdaliadau

Mae rhan 4 y Papur Gwyn yn ymwneud â rheoli cymorthdaliadau. Fel aelod o'r UE, mae'r DU wedi bod yn destun rheolau'r UE ar gymorth gwladwriaethol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r mesurau hyn hefyd yn berthnasol i'r DU yn ystod y cyfnod pontio. Mae'r papur yn cynnig creu un gyfundrefn gymorthdaliadau ar gyfer y DU gyfan a fydd yn sicrhau dull unffurf o ran y rheolau a fydd yn llywodraethu'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn cefnogi busnesau.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dadlau** bod cymorth gwladwriaethol wedi'i ddatganoli gan nad yw'n fater a gedwir yn ôl o dan unrhyw bennawd o'r Atodlen o Faterion a gedwir yn ôl yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Papur Gwyn yn nodi er bod Llywodraeth y DU o'r farn bod cymorth gwladwriaethol wedi'i gadw yn ôl ar hyn o bryd, bydd yn gwneud hyn yn glir drwy gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn cyflwyno cymalau cadw newydd neu eithriadau ar reoli cymorthdaliadau i'r setliadau datganoli. Fodd bynnag, mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau gwariant ar gymorthdaliadau.

Mae'r papur yn mynd ymlaen i nodi:

> The UK as a whole has an interest in ensuring that there is legal certainty, and that the UK Internal Market can continue to function without barriers. Given this, the future subsidy control mechanisms should be the responsibility of the UK Parliament to determine.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd Llywodraeth y DU yn amlinellu ei pholisi ar gyfer y gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau ledled y DU ar wahân maes o law ac y byddai'n gweithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig i geisio cytundeb ar ffurf y polisi hwnnw.

# 5. Dadansoddiad cychwynnol o'r cynigion

Mae'r adran hon yn nodi rhai o'r materion a'r cwestiynau allweddol sy'n codi o'r Papur Gwyn a allai fod â goblygiadau i Gymru. Gan nad yw'r Papur Gwyn yn cynnwys cymalau drafft nac yn darparu gwybodaeth fanwl am sut y bydd pob agwedd ar y cynigion yn gweithredu, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant ynglŷn â'i heffeithiau posibl. Yn hytrach, mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad cychwynnol o rai o'r cwestiynau allweddol a godwyd.

Mae enghreifftiau darluniadol o sut y gallai'r materion hyn effeithio ar feysydd polisi a deddfwriaeth benodol yng Nghymru wedi'u nodi ar ddiwedd y bennod hon.

## 5.1. Safonau rheoleiddio

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel ym marchnad fewnol y DU pan fydd y DU yn gadael yr UE ac mewn rhai achosion bydd yn gosod safonau uwch. Dywed y Papur Gwyn:

> Under the Government's proposed approach, the devolved administrations would retain the right to legislate in devolved policy areas that they currently enjoy.
>
> [...]
>
> The Government is committed to ensuring that this power of innovation does not lead to any worry about the possible lowering of standards [...]

Mae'r Papur Gwyn yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn gwneud hyn drwy barhau i weithio gyda llywodraethau datganoledig ar y rhaglen fframweithiau cyffredin a thrwy gynnal ei hymrwymiad i'r safonau uchaf posibl. Fodd bynnag, nid yw'r Papur Gwyn yn egluro a fyddai'r Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad yn cynnwys unrhyw fecanwaith i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal. Mae hyn yn bwysig oherwydd yr effaith o ymgorffori egwyddorion cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu yn y gyfraith.

Drwy ymgorffori egwyddor o gyd-gydnabod yn y gyfraith, bydd gan nwyddau a gynhyrchir i'r safonau a bennir mewn un rhan o'r DU hawl awtomatig i gael eu gwerthu mewn rhannau eraill o'r DU. Felly, er y gallai Cymru ddewis cyflwyno safonau uwch ar ansawdd bwyd nag mewn rhannau eraill o'r DU, dim ond i gynhyrchwyr Cymru y byddai'r rhain yn berthnasol. Dim ond y safonau sydd mewn grym yn eu gwledydd eu hunain y byddai angen i gynhyrchwyr mewn rhannau eraill o'r DU eu cyrraedd. Gallent ddewis yn wirfoddol i fodloni'r safonau uwch pe bai, er enghraifft, alw gan ddefnyddwyr am hyn, ond ni fyddai'n ofynnol

iddynt wneud hynny. Gallai effaith ymarferol hyn olygu y byddai cynhyrchwyr yng Nghymru o dan anfantais gymharol o'u cymharu â chynhyrchwyr mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae sylwebwyr **megis yr Athro Nicola McEwan** ac eraill wedi dadlau, o ystyried maint a goruchafiaeth gymharol y farchnad yn Lloegr o'i chymharu â gweddill y DU, y byddai rheidrwydd economaidd, o dan egwyddor o gyd-gydnabod absoliwt, i gwmnïau gynhyrchu i'r safonau a bennwyd ar gyfer Lloegr gan Lywodraeth y DU - boed y rhain yn is neu'n uwch.

Felly, er efallai na fydd y llywodraethau datganoledig yn wynebu unrhyw gyfyngiadau deddfwriaethol newydd, byddai effaith polisi ymarferol o roi eu cynhyrchwyr neu eu darparwyr gwasanaeth dan anfantais gymharol - hyd yn oed ar seiliau polisi cymdeithasol neu amgylcheddol y gellir eu cyfiawnhau, o gymharu â rhannau eraill o'r DU.

## 5.2. Cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad

Fel y nodir yn adran 3 o'r papur hwn, mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad yn berthnasol i'r holl nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn awgrymu y byddai cyrhaeddiad y ddarpariaeth yn y farchnad fewnol yn ehangach na'r rhai sy'n ddarostyngedig i reolau marchnad sengl yr UE ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae'r Papur Gwyn yn rhoi'r enghraifft o reoliadau adeiladu fel rhwystr i fasnach. Mae rheoliadau adeiladu wedi'u datganoli i Gymru ers 2011.  Mae gwahaniaethau'n bodoli o ran y ffordd y mae rheoliadau adeiladu yn cael eu cymhwyso ledled y DU ac mae cynnwys yr enghraifft hon yn y Papur Gwyn yn awgrymu, er y gallai deddfwrfeydd datganoledig ddewis parhau i ddeddfu'n wahanol yn y meysydd hyn yn y dyfodol, na fyddai'n ofynnol i gwmnïau adeiladu o wahanol rannau o'r DU lynu wrthynt.

Byddai hyn yn newid sylweddol o'r sefyllfa sydd ar waith yn y DU o dan farchnad sengl yr UE.

O ystyried y potensial o ran cwmpas yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad, bydd y diffiniad o waharddiadau a fydd yn berthnasol yn bwysig er mwyn asesu unrhyw effeithiau.

## 5.3. Gwaharddiadau a neilltuadau

Nid yw'r egwyddor o gyd-gydnabod yn cael ei chymhwyso'n aml iawn yn ei ffurf absoliwt mewn enghreifftiau eraill o farchnadoedd mewnol. Mae hyn hefyd yn wir

o ran yr egwyddor o beidio â gwahaniaethu.

O dan farchnad sengl yr UE, gall aelod-wladwriaethau gyflwyno rheoliadau neu safonau llymach yn groes i'r egwyddor o gyd-gydnabod ar sail glir er budd y cyhoedd megis iechyd y cyhoedd, safonau amgylcheddol neu ddiogelu defnyddwyr. Yn ei **dystiolaeth** i Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban, dywed yr Athro Michael Dougan, bod aelod-wladwriaethau yn yr UE yn cael ystod eang o ddewisiadau rheoleiddio heb fynd yn groes i reolau'r farchnad sengl.

Nid yw'r Papur Gwyn yn glir o ran pa rai, os o gwbl, o'r mathau hyn o waharddiadau a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig.

Fel yr amlinellir yn rhai o'r enghreifftiau isod, mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd gwaharddiadau'n cynnwys gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes ond nid yw'n egluro sut y caiff y gwahaniaethau hyn eu diffinio. Gallai hyn fod yn bwysig o ran gadael llywodraethau datganoledig yn agored i herio deddfwriaeth sydd eisoes ar waith. Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi na fyddai polisïau cymdeithasol sydd heb fawr o effaith ar y farchnad fewnol yn cael eu cynnwys ond nid ydynt yn darparu rhagor o fanylion am sut y byddai hyn yn cael ei ddiffinio nac yn rhoi enghreifftiau eglurhaol o sut y byddai'r eithriad hwn yn gweithio.

## 5.4. Cyfyngiadau ar y setliad datganoli presennol a newidiadau iddo

Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu, mewn perthynas â gweithrediad y farchnad fewnol, y bydd y deddfwrfeydd datganoledig yn cadw'r hawl i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd. Dywed Llywodraeth y DU y bydd yn deddfu i wneud rheoli cymorthdaliadau yn fater penodol a gedwir yn ôl ac nid yw'n diystyru unrhyw newidiadau pellach i'r setliadau datganoledig naill ai'n awr nac yn y dyfodol wrth i'r farchnad fewnol esblygu.

Yn ei thystiolaeth i Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban, mae'r **Athro Aileen McHarg** yn nodi y gallai dull deddfwriaethol o ymdrin â'r farchnad fewnol gynnwys deddfu i ddarparu cyfres gyson o gyfyngiadau ar draws y sefydliadau datganoledig, neu bŵer feto i Ysgrifennydd Gwladol y DU. Mae'r Athro McHarg yn nodi y gallai dull o'r fath beri problemau oherwydd sofraniaeth Senedd y DU, sy'n golygu na fyddai'n bosibl rhwymo Senedd a Llywodraeth y DU mewn perthynas â Lloegr yn yr un modd ag y gallai rwymo'r deddfwrfeydd datganoledig.

Nid yw'n glir ychwaith a allai'r sefydliadau datganoledig neu Senedd a Llywodraeth y DU fod yn ddarostyngedig i ofynion asesu newydd wrth basio deddfwriaeth

mewn perthynas â'i heffaith bosibl ar y farchnad fewnol. Er enghraifft, diwygiwyd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn 2017 i'w gwneud yn ofynnol i Aelod sy'n cyflwyno Bil newydd i'r Senedd gwblhau asesiad o'r effaith ar gyfiawnder.

Nid yw'r Papur Gwyn yn egluro a allai asesiad tebyg fod yn ofynnol.

## 5.5. Llywodraethu a hawliau

Mae gan yr enghreifftiau o farchnadoedd mewnol sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn a marchnad sengl yr UE ei hun strwythurau llywodraethu a goruchwylio gwahanol, ond clir, ynghlwm wrthynt. Mae'r mecanweithiau hyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer monitro a goruchwylio gweithrediad y farchnad, mecanweithiau cydymffurfio, mecanweithiau osgoi a datrys anghydfodau, mecanweithiau ar gyfer gwneud iawn a mecanweithiau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae cynigion ar sut y caiff rhai o'r swyddogaethau hyn eu cyflawni wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ac mae rhai egwyddorion dylunio allweddol wedi'u nodi hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r papur yn amlinellu manylion yr holl fecanweithiau hyn.

Er enghraifft, er bod y Papur Gwyn yn nodi y bydd angen gwella mecanweithiau datrys anghydfodau rhynglywodraethol, nid yw'n nodi sut y bydd hyn yn cael ei wneud a sut y byddai cydraddoldeb rhwng y pedair llywodraeth o fewn y mecanweithiau hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y bydd hyn yn cael ei wneud drwy fecanweithiau sydd eisoes yn bodoli ond nid yw'n nodi'n benodol a allai'r mecanweithiau hyn gael eu hategu gan ddeddfwriaeth mewn rhyw ffordd. Mae'r Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig wedi bod yn cynnal adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol ond mae Llywodraeth Cymru wedi **hysbysu** Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd y bu oedi gyda'r gwaith hwn. Ni chyhoeddwyd amserlen newydd ar gyfer y gwaith hwn eto.

Yn ei dystiolaeth i Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban, mae'r Athro Michael Dougan yn tynnu sylw at gwestiwn allweddol i'w ystyried sef pwy sy'n berchen ar farchnad fewnol y DU. Hynny yw, a fydd yn strwythur rhyng-lywodraethol yn bennaf neu a fydd gan unigolion hawliau cyfreithiol pendant y gellir eu gorfodi drwy'r llysoedd. Mae'r Papur Gwyn yn awgrymu y bydd yr Ymrwymiad i Fynediad i'r Farchnad yn gwarantu y bydd unigolion a busnesau yn gallu masnachu'n ddirwystr ond nid yw'n nodi a fydd hyn yn creu unrhyw hawliau neu fecanweithiau ar gyfer gwneud iawn y tu hwnt i'r rheini sydd eisoes yn bodoli drwy'r broses adolygiad barnwrol sy'n gallu bod yn ddrud i unigolion a busnesau.

## 5.6. Masnach

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd deddfu ar gyfer marchnad fewnol yn y DU yn galluogi'r DU i negodi cytundebau masnach â gwledydd trydydd parti yn haws a gwneud y DU yn fwy deniadol i fuddsoddiad uniongyrchol o dramor. Darperir enghreifftiau o farchnadoedd mewnol sydd â llywodraethau is-wladwriaethol yn gweithredu o fewn gwledydd mewn mannau eraill yn y papur.

Fel y dywed y Papur Gwyn ei hun, mae'n bwysig nodi mai gwladwriaethau ffederal yw rhai o'r enghreifftiau a ddarperir, ac er bod llawer ohonynt wedi cymryd camau i geisio sicrhau y gellir gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol a lofnodwyd gan y llywodraeth ffederal yn llawn o fewn eu tiriogaethau, mae'r rhan fwyaf o'r tiriogaethau is-wladwriaethol a llywodraethau'n cadw lefel uchel o ymreolaeth reoleiddiol wrth benderfynu sut y byddant yn gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol, neu os byddant yn eu gweithredu. Yn ogystal, mae'r enghreifftiau yn dangos ei fod yn beth gyffredin i drafodaethau masnach a negodwyd rhwng dwy lywodraeth genedlaethol gynnwys eithriadau ar gyfer tiriogaethau penodol.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi'n fanwl eto pa rôl y bydd llywodraethau datganoledig yn ei chwarae mewn negodiadau ynghylch masnach ryngwladol. Mae Dr Emily Lydgate a Chloe Anthony, yn eu **papur** ar y farchnad fewnol yn awgrymu, o ystyried effeithiau posibl cytundebau masnach ar feysydd datganoledig a'r farchnad fewnol, ei bod yn bwysig ystyried darparu rôl gryfach i lywodraethau datganoledig mewn negodiadau masnach.

## 5.7. Dynameg

O ystyried na fydd economïau'r DU yn aros yn statig, gallai fod yn bwysig trafod sut y bydd deddfwriaeth ar y farchnad fewnol yn rhoi sylwi i hyn ac unrhyw newidiadau a datblygiadau arloesol yn y dyfodol. Mae marchnad sengl yr UE wedi bod yn ddynamig iawn ac wedi bod yn destun proses o adolygu a newid parhaus.

Yn ôl y Papur Gwyn:

> Given these measures are intended to preserve the integrity of the UK Internal Market on an on ongoing basis, the Government will look to build on precedent to ensure the continuity of the most effective mechanisms to deliver that objective.

At hynny, mewn perthynas â'r swyddogaethau annibynnol y bydd yn ofynnol i gorff eu cyflawni, mae'n nodi:

> The functioning of the UK Internal Market architecture itself will also

> need to be reviewed at intervals to make sure legislation is still serving developments in the market and whether legal principles are being adhered to and utilised effectively by stakeholders.

Nid yw'r Papur Gwyn yn nodi manylion unrhyw fecanweithiau a allai gael eu rhoi ar waith i adlewyrchu newidiadau yn yr economi neu'r dirwedd reoleiddiol na sut y byddai'r newidiadau i'r bensaernïaeth yn cael eu cytuno a'u gweithredu rhwng llywodraethau'r DU.

Ym marchnad sengl yr UE, mae gan y Comisiwn Ewropeaidd yr hawl i gynnig deddfwriaeth newydd y mae'n credu ei bod yn angenrheidiol ond, fel y nododd yr Athro Michael Keating yn ei **ymateb** i'r Papur Gwyn, mae'r ddeddfwriaeth hon yn ddarostyngedig i gyfyngiadau'r egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd y gall llywodraethau a deddfwrfeydd cenedlaethol ac is-wladwriaethol eu defnyddio i herio cynigion deddfwriaethol newydd.

## 5.8. Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol:

Nid yw'r papur yn egluro sut y bydd unrhyw gytundeb a wneir rhwng y DU a'r UE ar y berthynas yn y dyfodol yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y cynigion a geir yn y Papur Gwyn.  Er enghraifft, unrhyw gytundeb ar gymorth gwladwriaethol neu ymrwymiadau o ran sefyllfa gydradd.

Mae'r Papur Gwyn yn darparu rhai manylion ynghylch sut y bydd y cynigion ar gyfer marchnad fewnol y DU yn gweithredu gyda phrotocol Gogledd Iwerddon. Mae'r papur yn datgan ei fod yn gweithredu yn y meysydd hynny nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Protocol ac y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth ar wahân i warantu mynediad dilyffethair i nwyddau Gogledd Iwerddon sy'n dod i Brydain Fawr. Mae'r Papur Gwyn yn nodi nad yw'r protocol wedi'i godio fel ateb parhaol ac os bydd cydsyniad Gogledd Iwerddon i'r Protocol yn cael ei dynnu'n ôl, byddai gofynion marchnad fewnol y DU yn berthnasol.

## 5.9. Pwerau gwario

Mae'r Papur Gwyn yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn adolygu'r pwerau gwario sydd eu hangen arni mewn perthynas â gweithredu'r farchnad fewnol. Mae'n dweud:

> The UK Government will seek to clarify the use of spending powers to support and promote the functioning of the Internal Market. This will provide certainty and transparency to help channel private and public investment.

Nid yw'n nodi beth fydd cwmpas yr adolygiad hwn o bwerau gwario, pryd y caiff

ei gyhoeddi, ac a fydd yn gofyn am unrhyw bwerau deddfwriaethol newydd, newidiadau i'r setliadau datganoli presennol neu yn y dyfodol.

## 5.10. Enghreifftiau o effeithiau posibl ar feysydd polisi datganoledig

Nid yw'n glir yn y Papur Gwyn pa gyfreithiau datganoledig fyddai'n cael eu cwmpasu gan y farchnad fewnol.

Yn benodol, nid yw'n glir a fyddai cyfraith ddatganoledig gyfredol Cymru sy'n gwyro oddi wrth y gyfraith yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig i'r farchnad fewnol. Mae paragraff 23 o'r Papur Gwyn yn dweud (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Certain social policy measures with little Internal Market impacts, and **pre-existing differences** and policies, will also be excluded.

Nid yw'n glir a yw hyn yn golygu y bydd cyfraith ddatganoledig bresennol Cymru sydd eisoes yn wahanol i'r gyfraith yng ngweddill y Deyrnas Unedig yn cael ei gwmpasu gan y farchnad fewnol. Nid yw'r Papur Gwyn yn mynd i'r afael â sut y diffinnir gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes, a faint o wyro sydd ei angen i ystyried bod rhywbeth yn wahanol. Nid yw'n esbonio beth yw'r mesurau polisi cymdeithasol penodol a fydd yn cael eu heithrio.

Isod ceir enghreifftiau o amrywiaeth o gyfreithiau datganoledig yng Nghymru sydd â'r gallu i effeithio ar y fasnach mewn nwyddau a gwasanaethau o fewn y DU. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a fyddent yn agored i'r farchnad fewnol neu a fyddent yn cael eu heithrio.

### 5.10.a Enghraifft Gofal Cymdeithasol

Mae rhan 4 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn rhoi disgresiwn i Gofal Cymdeithasol Cymru o ran pa gymwysterau proffesiynol i'w derbyn fel rhai sy'n ddigonol i ganiatáu i unigolion gael eu cofrestru fel gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, rheolwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.

A yw'r Papur Gwyn yn cwmpasu gwasanaethau gofal cymdeithasol? Neu a yw hyn yn enghraifft o wahaniaeth sy'n bodoli eisoes a fydd yn cael ei eithrio?

Os yw rheolau gofal cymdeithasol Lloegr yn caniatáu i unigolyn ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol yn Lloegr, ond gyda llai o gymwysterau na'r rhai a ganiateir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a fyddai'r egwyddor o gyd-gydnabod

cymwysterau proffesiynol yn berthnasol? Os felly, pa effaith fyddai hynny'n ei chael ar weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol presennol a darpar weithwyr o ran ble maent yn cwblhau eu cymwysterau, a sut y bydd yn effeithio ar amcan polisi bwriedig Gofal Cymdeithasol Cymru i uwchsgilio'r gweithlu sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru?

O ran cydnabod cymwysterau proffesiynol, nid yw'r Papur Gwyn yn glir. Mae paragraff 133(b) ar dudalen 46 yn dweud (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> Professional qualifications – mutual recognition of professional qualifications means that compliance with regulation required to access a profession in one territory can be used to **demonstrate** compliance towards the access of that profession in another territory. Where access requirements in the other territory differ, a process will be implemented to enable professionals to **demonstrate** compliance. In addition, other profession-specific regulatory requirements needed to practise the profession will be included as part of this process.

Os bwriedir i'r Papur Gwyn gwmpasu gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'n aneglur a yw dangos yn golygu:

- y byddai gweithiwr gofal cymdeithasol sy'n gallu ymarfer gofal cymdeithasol yn Lloegr yn cael caniatâd yn awtomatig i ymarfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, neu;
- a fyddai'r gallu i ymarfer gofal cymdeithasol yn Lloegr yn darparu tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer yng Nghymru, gan adael y penderfyniad terfynol i Gofal Cymdeithasol Cymru.

### 5.10.b Enghraifft cofrestru landlordiaid preifat

Mae rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid preifat yng Nghymru gael eu cofrestru yn unol â'r cynllun a nodir yn y Ddeddf honno.

Nid yw'n glir a fyddai'r gofyniad i landlordiaid preifat gael eu cofrestru yn cael ei gwmpasu gan gynigion y Papur Gwyn?

Pe bai gan Ogledd Iwerddon gynllun gwahanol ar gyfer awdurdodi landlordiaid preifat, a fyddai'r egwyddorion o gyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu yn berthnasol? A fyddai rhywun sy'n rhedeg ei fusnes fel landlord preifat yng Ngogledd Iwerddon yn cael caniatâd i redeg busnes fel landlord preifat yng Nghymru drwy fodloni rheolau Gogledd Iwerddon, ond nid rheolau Cymru?

Mae'r cynllun a nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014 eisoes yn cydymffurfio â

Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009. Golyga hyn na ddylai cynllun cyfredol Cymru fod yn wahaniaethol ac mae'n rhaid ei gyfiawnhau er bydd y cyhoedd.

Mae paragraff 133 (c) ar dudalen 46 o'r Papur Gwyn yn dweud y bydd y rheolau o ran Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009 yn cael eu dwyn yn benodol o fewn system y farchnad fewnol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y bydd hyn yn rhyngweithio â'r egwyddorion ehangach o gyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu.

### 5.10.c Enghraifft microbelenni

Mae pob un o'r pedair llywodraeth yn y Deyrnas Unedig wedi gwneud rheoliadau sy'n gwahardd defnyddio microbelenni mewn cynhyrchion gofal personol sy'n cael eu rinsio i ffwrdd fel cynhyrchion bath, cynhyrchion sgrwbio a chynhyrchion deintyddol.

Mae'n ymddangos bod cynhyrchion gofal personol sy'n cael eu rinsio i fwrdd yn cael eu cwmpasu gan gynigion y Papur Gwyn. Felly, pe bai un o'r llywodraethau'n gwneud rheoliadau a oedd yn codi'r gwaharddiad mewn perthynas â chynhyrchion o'r fath, byddai'r egwyddorion o beidio â gwahaniaethu a chyd-gydnabod yn berthnasol.

A fyddai hyn yn golygu y gallai cynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni gael eu rhoi ar y farchnad yng Nghymru, er gwaethaf y gwaharddiad ar ddefnyddio microbelenni a nodir yn Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbelenni) (Cymru) 2018?

Er bod y Papur Gwyn yn ailadrodd lawer gwaith y bydd safonau uchel yn cael eu cynnal, nid oes eglurhad ynghylch sut, na pha un a fydd y farchnad fewnol yn sicrhau y bydd y safonau uchaf a fabwysiedir gan unrhyw un o wledydd y DU yn cael eu cynnal ar draws gweddill y DU. Er enghraifft, a fydd gan y farchnad fewnol safonau gofynnol mewn perthynas â defnyddio plastigau microbelenni mewn cynhyrchion? Beth os yw un rhan o'r DU yn dadreoli'r maes hwn yn llwyr? A fydd y fframweithiau cyffredin yn ymdrin â materion o'r fath? A pha rwymedigaethau rhyngwladol a allai godi er mwyn diystyru cyfraith ddomestig yn y maes hwn?

### 5.10.d Enghraifft rheoliadau adeiladu

Mae paragraff 17 o grynodeb gweithredol y Papur Gwyn yn dweud y byddai gwahanol ddulliau o ymdrin â rheoliadau adeiladu yn rhwystr i'r diwydiant adeiladu yn y Deyrnas Unedig.

Felly, er ei bod yn amlwg y bwriedir i reoliadau adeiladu gael eu cwmpasu gan y farchnad fewnol, nid yw'n glir i ba raddau y bydd unrhyw wahaniaethau sy'n bodoli eisoes yn cael eu heithrio.

A fydd rheoliadau adeiladu presennol Cymru yn cael eu heithrio? A fydd y farchnad fewnol dim ond yn berthnasol i newidiadau i reoliadau adeiladu yn y dyfodol?

Mae hyn yn dychwelyd at y cwestiwn ar ddechrau'r adran hon: sut y bydd gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes yn cael eu heithrio o'r farchnad fewnol?

Mae cynnwys rheoliadau adeiladu hefyd yn enghraifft glir y bwriedir i farchnad fewnol y DU dalu am nwyddau a gwasanaethau na chawsant eu rheoleiddio o dan gyfraith yr UE o'r blaen.

### 5.10.e Enghraifft labelu dŵr potel

Mae Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015 yn nodi gofynion penodol ar gyfer dŵr wedi'i botelu sy'n cael ei labelu fel "dŵr ffynnon". Er enghraifft, mae'n rhaid i'r dŵr gael ei botelu yn y ffynhonnell ac mae'n rhaid cymryd camau penodol i sicrhau nad yw'r dŵr cael ei halogi.

Mae'n ymddangos bod dŵr potel yn cael ei gwmpasu gan y Papur Gwyn. Felly, os yw rheolau Lloegr yn gosod safonau gwahanol ar gyfer dŵr ffynnon wedi'i boteli, byddai'r egwyddorion o beidio â gwahaniaethu a chyd-gydnabod yn berthnasol. Byddai hyn yn golygu y gallai dŵr ffynnon wedi'i botelu sy'n cydymffurfio â rheolau Cymru gael ei werthu yng Nghymru fel dŵr ffynnon, a gallai dŵr ffynnon wedi'i botelu sy'n cydymffurfio â rheolau gwahanol yn Lloegr gael ei werthu yng Nghymru hefyd fel dŵr ffynnon.

A yw hyn yn peri dryswch i ddefnyddwyr sydd am brynu dŵr ffynnon? A yw hwn yn fater sy'n codi ym mhob un o'r enghreifftiau uchod?

# 6. Effaith economaidd rheoleiddio gwahanol ym mhob un o wledydd y DU

## 6.1. Effaith rhwystrau masnach rhwng gwledydd y DU ar Gynnyrch Domestig Gros

Mae datganiad Llywodraeth y DU ynghylch lleihau Cynnyrch Domestig Gros yn seiliedig ar ddadansoddiad a oedd yn modelu'r effaith ar Gynnyrch Domestig Gros y DU pe bai costau masnach yn cynyddu i'r lefelau rhwng taleithiau'r Almaen. **Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod unrhyw ostyngiad canrannol mewn Cynnyrch Domestig Gros Cymru o ganlyniad i rwystrau i fasnachu rhwng gwledydd y DU yn debygol o fod fwy na phum gwaith yn fwy na'r gostyngiad mewn Cynnyrch Domestig Gros y DU, gan arwain at ostyngiad mewn Cynnyrch Domestig Gros Cymru o £1.2 biliwn.** Mae Llywodraeth y DU yn dweud, er y byddai defnydd lleol a rhyngwladol o nwyddau yn gwrthbwyso rhywfaint o'r effaith negyddol ar fasnach rhwng gwahanol rannau'r DU pe byddai rhwystrau masnach yn cynyddu, byddai'n annigonol i wrthbwyso hyn yn llawn. Mae o'r farn y byddai'r gwledydd datganoledig yn gweld gostyngiad uwch mewn Cynnyrch Domestig Gros na Lloegr, gan y byddai'r fasnach rhwng Lloegr a'r gwledydd datganoledig yn lleihau, ond byddai'r effaith ar Loegr yn cael ei gwrthbwyso i raddau helaeth gan fwy o fasnachu rhwng rhanbarthau yn Lloegr.

**Fodd bynnag, mae'r Atodiad dadansoddol i'r Papur Gwyn (tudalennau 90-91) yn nodi bod y ffigurau'n ddangosol yn unig, ac ni ddylid eu hystyried fel unrhyw arwydd o effaith newid mewn polisi ar Gynnyrch Domestig Gros gan bedair gwlad y DU ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben.** Mae'r Atodiad dadansoddol yn nodi:

> While these are significant and economically large impacts, this is not a prediction of the future of the UK. Firstly, devolution in Germany is fundamentally different to that of the UK and as the result the states have different policy levers at their disposal. In addition, trade costs can be affected by many factors outside of policy makers control, as explained in the previous section. As a result, these figures should not be taken as any indication of the likely GDP impact of policy divergence by the four parts of the UK after the end of the transition period.

Nid yw'r Papur Gwyn yn glir o ran pam y defnyddiwyd yr Almaen fel sail ar gyfer modelu Llywodraeth y DU, neu a fyddai enghreifftiau sy'n seiliedig ar wledydd eraill wedi rhoi canlyniadau gwahanol.

## 6.2. Masnach gan gwmnïau o Gymru

Nid oes ffynhonnell swyddogol o ddata ar fasnach o fewn y DU. Mae Llywodraeth Cymru **yn nodi** bod y data ar gyfer masnach ryngwladol Cymru yn dod o "amcangyfrifon wedi eu modelu sydd wedi eu seilio ar ffigurau cyflogaeth dosranedig y Deyrnas Unedig, yn hytrach na chasgliadau data uniongyrchol".

Mae Papur Gwyn Llywodraeth y DU wedi defnyddio dadansoddiad o **gronfa ddata EUREGIO** a datblygwyd gan academyddion yn yr Iseldiroedd a'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n defnyddio llifoedd masnach rhyngwladol fel sail i fodelu'r rhain ar lefel ranbarthol ar draws aelod-wladwriaethau'r UE. **Mae'r dadansoddiad hwn yn defnyddio data o 2010 i nodi canran y gwerthiannau a'r pryniannau ar gyfer pob gwlad yn y DU a wnaed o fewn y wlad honno; o fewn gweddill y DU; o fewn aelod-wladwriaethau'r UE; ac ar draws gweddill y byd**. Mae'r data hyn yn dangos yn 2010:

- Cafodd 64 y cant o'r nwyddau a'r gwasanaethau terfynol a gynhyrchwyd yng Nghymru eu gwerthu yng Nghymru, cafodd 27 y cant eu gwerthu mewn rhannau eraill o'r DU, a chafodd 9 y cant o'r nwyddau eu gwerthu y tu allan i'r DU.
- Roedd canran y nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchwyd yng Nghymru a werthwyd mewn rhannau eraill o'r DU yn sylweddol uwch na chanran gwledydd eraill y DU. Roedd y ffigurau ar gyfer allforion o'r Alban a Gogledd Iwerddon a aeth i weddill y DU hefyd yn sylweddol uwch nag ar gyfer Lloegr.
- Roedd 62 y cant o'r nwyddau a'r gwasanaethau terfynol a ddefnyddiwyd yng Nghymru yn dod o Gymru, tra'r oedd 25 y cant yn dod o rannau eraill o'r DU, ac roedd 13 y cant o'r nwyddau yn dod o'r tu allan i'r DU.
- Roedd canran y nwyddau a'r gwasanaethau a ddefnyddiwyd yng Nghymru a gafodd eu cynhyrchu mewn rhannau eraill o'r DU yn sylweddol uwch na chanran gwledydd eraill y DU. Mae'r ffigurau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dangos bod canran y nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn y gwledydd hyn o weddill y DU hefyd yn sylweddol uwch nag ar gyfer Lloegr.
- Yn ogystal, mae'r set ddata yn dangos bod patrymau tebyg ar gyfer llifoedd cadwyni cyflenwi nwyddau a gwasanaethau canolraddol. Cafodd 51 y cant o nwyddau a gwasanaethau canolraddol a gynhyrchwyd yng Nghymru eu defnyddio yng Nghymru, 27 y cant mewn rhannau eraill o'r DU, a 22 y cant y tu allan i'r DU.
- Cafodd 45 y cant o nwyddau a gwasanaethau canolraddol a ddefnyddiwyd yng

Nghymru eu cynhyrchu yng Nghymru, 41 y cant mewn rhannau eraill o'r DU, ac 14 y cant y tu allan i'r DU.

**Ar yr un diwrnod ag y cyhoeddwyd y Papur Gwyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Arolwg Masnach Cymru, sy'n darparu data arolwg ar gyfer 2018, er bod hyn yn seiliedig ar sampl o tua 1,000 o fusnesau.** Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd wedi cyhoeddi data ar gyfer 2018, yn seiliedig ar arolygon sy'n defnyddio methodoleg tebyg. Mae arolwg Llywodraeth Cymru yn edrych ar werthiannau a phryniannau gan fusnesau Cymru, ac felly mae'n wahanol i set ddata EUREGIO sy'n edrych ar nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir gan Gymru, a nwyddau a gwasanaethau a ddefnyddir yng Nghymru.

Mae data'r arolwg a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos y prif gasgliadau canlynol:

- Aeth 50 y cant o werthiannau gan fusnesau Cymru i gwsmeriaid yng Nghymru, aeth 30 y cant i gwsmeriaid yng ngweddill y DU, ac 20 y cant i gwsmeriaid y tu allan i'r DU.
- Cafodd 87 y cant o fusnesau yng Nghymru werthiannau i gwsmeriaid yng Nghymru, 48 y cant i gwsmeriaid yng ngweddill y DU, 17 y cant i gwsmeriaid yn yr UE ac 12 y cant i gwsmeriaid yng ngweddill y byd.
- Daeth 20 y cant o bryniannau gan fusnesau Cymru o Gymru, o'u cymharu â 51 y cant gan weddill y DU, ac 18 y cant o'r tu allan i'r DU. Yn ogystal, nid oedd 12 y cant o'r pryniannau wedi eu dyrannu yn ôl eu rhanbarth.
- Gwnaeth 81 y cant o fusnesau yng Nghymru bryniannau o Gymru, 67 y cant o weddill y DU, 22 y cant o'r UE a 10 y cant o weddill y byd.

# 7. Ymatebion ac adweithiau gan y llywodraethau a'r deddfwrfeydd

## 7.1. Llywodraeth Cymru

Cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, **ysgrifennodd** Jeremey Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio yn Llywodraeth Cymru, at weinidogion Llywodraeth y DU ar 7 Gorffennaf 2020. Roedd y llythyr yn nodi, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar effaith Brexit ar farchnad fewnol y DU, roedd swyddogion Llywodraeth y DU wedi ymddieithrio o'r rhaglen o waith ar y cyd hon, ac wedi peidio â rhannu drafftiau a addawyd o Bapur Gwyrdd â Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, **ysgrifennodd** Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru unwaith yn rhagor at y Gwir Anrh. Alok Sharma AS, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 14 Awst 2020. Roedd y llythyr yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru a 15 cwestiwn y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael atebion iddynt.

Yn ei lythyr dywed y Cwnsler Cyffredinol mai barn gychwynnol Llywodraeth Cymru yw bod y Papur Gwyn yn sylfaenol ddiffygiol a chamarweiniol. Mae'n dadlau y gallai'r dull a welir yn y Papur Gwyn gyflymu'r broses o chwalu'r Undeb. Mae'r llythyr yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu cyflwyno deddfwriaeth i lywodraethu Marchnad Fewnol y DU os profir ei bod yn angenrheidiol a'i bod yn cael ei gwneud ar sail gydweithredol, ond mae'n credu nad oes angen y ddeddfwriaeth fel y'i cynigir yn y Papur Gwyn. Mae'n nodi y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn dirymu hawliau cyfredol y sefydliadau datganoledig ac yn rhoi llai o ryddid iddynt ymwahanu nag sydd ganddynt fel rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd y pwyntiau allweddol eraill yn nadansoddiad Llywodraeth Cymru yn cynnwys bod:

- yr honiad yn y Papur Gwyn y bydd y cynigion yn 'rhoi' rhagor o bwerau i sefydliadau datganoledig yn gamarweiniol.
- y dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi cynigion y Papur Gwyn yn ddiffygiol mewn sawl ffordd, gan gynnwys bod:
  - y risg o niwed i economi'r DU o beidio â chyflwyno'r Bil wedi'i or-ddatgan,

  - yr enghreifftiau a gynhwysir yn y papur yn ddamcaniaethol ac nad ydynt yn seiliedig ar sectorau o economi'r DU lle mae ymwahanu eisoes,
  - dehongliad o fodelu a dadansoddi economaidd yn destun pryder mawr; ac
  - nad yw'r enghreifftiau o sut mae marchnadoedd mewnol yn gweithredu mewn gwledydd eraill ledled y byd yn gymariaethau priodol â'r DU.
- Y cynigion fel y'u drafftiwyd yn ei gwneud yn 'anochel' y bydd y ddeddfwriaeth yn cyfyngu ar gymhwysedd y Senedd i reoleiddio nwyddau ar y farchnad yng Nghymru, ac nid yw'r papur yn rhoi manylion ar effaith gallu'r Senedd i reoleiddio o ran gwasanaethau a chymwysterau;
- Y model ar gyfer marchnad fewnol y DU a gynigwyd yn y Papur Gwyn yn wahanol i weithrediad Marchnad Sengl yr UE mewn sawl ffordd allweddol, gan gynnwys bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn cytuno ar reolau'r farchnad sengl ac nad ydynt yn cael eu gorfodi gan un ochr;
- Y Papur Gwyn yn brin o fanylion am yr eithriad arfaethedig ar gyfer ymwahanu rheoleiddiol ar hyn o bryd, ac nid yw'n eglur, pe bai sefydliad datganoledig yn gwneud diwygiadau i'r rheoliadau presennol, a fyddai hynny'n sicrhau bod y rheoliad o fewn cwmpas cynigion y farchnad fewnol;
- Nad yw'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i sicrhau y cynhelir safonau sylfaenol uchel ledled y DU.
- Yr adran yn y Papur Gwyn ar lywodraethu yn brin o fanylion a'i bod yn awgrymu rôl ar gyfer Senedd y DU o ran goruchwylio marchnad fewnol y DU, ond nid ar gyfer y deddfwrfeydd datganoledig, ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod hyn yn gwbl annerbyniol; ac
- Nad oes digon o wybodaeth am sut y bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn yn rhyngweithio â'r Protocol ar Ogledd Iwerddon / Iwerddon.

Mae'r llythyr yn gofyn am ragor o wybodaeth am y gyfundrefn cymorthdaliadau yn y DU yn y dyfodol, gan gynnwys ei llywodraethu, a gofynnir pam mae Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno cymalau cadw newydd o ran rheoli cymorthdaliadau o gofio bod y Papur Gwyn yn nodi bod Llywodraeth y DU am weithio ar y drefn newydd yn unol â'r sefydliadau datganoledig.

## 7.2. Llywodraeth yr Alban

**Ysgrifennodd** Michael Russel ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Gyfansoddiad, Ewrop a Materion Allanol, at Michael Gove AS ar 3 Gorffennaf 2020. Yn ei lythyr dywedodd na allai, ac na fyddai, Llywodraeth yr Alban yn derbyn unrhyw gynlluniau o'r fath i ddeddfu ar gyfer Marchnad Fewnol y DU.

Nododd Llywodraeth yr Alban ei hasesiad cychwynnol o'r Papur Gwyn mewn **llythyr** at Bwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban ar 11 Awst 2020. Mae'r asesiad yn nodi nad yw Llywodraeth yr Alban yn cefnogi'r cynigion hyn ac y bydd yn eu gwrthwynebu os… cyflwynir deddfwriaeth yn San Steffan.

Mae'r asesiad yn nodi barn Llywodraeth yr Alban y gellir rheoli ymwahanu rheoleiddiol yn y DU drwy'r rhaglen fframweithiau cyffredin sy'n cael ei datblygu ar y cyd gan bedair llywodraeth y DU, ac y gellid cyflymu'r rhaglen waith hon gydag ewyllys wleidyddol os bernir bod angen hynny. Mae'r asesiad yn nodi y byddai cynigion y Papur Gwyn ar y gorau yn drysu ac ar y gwaethaf yn gwadu bodolaeth y rhaglen fframweithiau cyffredin.

Aiff yr asesiad ymlaen i amlinellu barn Llywodraeth yr Alban bod y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn, gan gynnwys bod:

- y cynigion yn sylfaenol anghyson â datganoli ac y byddent yn gosod cyfyngiadau newydd ar y deddfwrfeydd datganoledig. Mae'n nodi bod y Papur Gwyn yn cyflwyno gwahaniaethau rheoleiddiol mewn meysydd datganoledig 'fel problem'. Mae'n cytuno â barn Llywodraeth Cymru bod yr honiad y bydd cynnydd ym mhwerau'r sefydliadau datganoledig yn gamarweiniol;
- y cynigion ar gyfer marchnad fewnol y DU a nodir yn y Papur Gwyn yn sylfaenol wahanol i'r ffordd y mae Marchnad Sengl yr UE yn gweithredu ar hyn o bryd, ac mae'n nodi y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn rhoi llai o ryddid i ymwahanu i Lywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban nag sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan gyfraith yr UE, gan felly gytuno â Llywodraeth Cymru;
- y cynigion yn ddiangen oherwydd systemau sydd eisoes ar waith, ac oherwydd y rhaglen fframweithiau cyffredin. Mae hefyd yn amlinellu'r un ddadl a wnaed gan Lywodraeth Cymru, sef bod ymwahanu eisoes yn y DU yn llawer o'r meysydd a restrir fel enghreifftiau yn y papur;
- y byddai'r cynigion yn caniatáu gostwng safonau, waeth beth yw barn Llywodraeth a Senedd yr Alban. Mae'r asesiad yn nodi nad oes llawer o fanylion ynghylch beth fyddai'r eithriadau o ran egwyddorion cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu, a sut y byddent yn gweithio'n ymarferol;
- nad yw'r cynigion yn darparu sicrwydd busnes, ac y byddent yn niweidiol i fusnesau a defnyddwyr yn yr Alban ac mewn rhannau eraill o'r DU; ac
- amlinellu barn debyg i farn Llywodraeth Cymru o ran y dystiolaeth a ddefnyddir yn y Papur Gwyn i danategu'r cynigion.

## 7.3. Ymateb Llywodraeth y DU

Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb yn gyhoeddus i'r dadansoddiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban hyd yma. Ar 14 Gorffennaf **atebodd** Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y llythyr a anfonwyd gan Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar 7 Gorffennaf, gan nodi:

> A strong and cohesive UK internal market has always been central to the effective functioning of devolution. The proposals that the Government will set out shortly in our White Paper are intended to work with the grain of the devolution settlements.

## 7.4. Ymateb deddfwrfeydd y DU

### 7.4.a Senedd Cymru

Mae Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd wedi cyhoeddi ymatebion i'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Mae'r ddau bwyllgor wedi beirniadu hyd y cyfnod ymgynghori a'r ffaith bod yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn ystod cyfnod toriad yr haf.

Yn ei **lythyr**, mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn nodi na all gynnig barn derfynol ar y Papur Gwyn heb gael rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth y DU. Mae'r llythyr yn cynnwys 18 o gwestiynau y mae'r Pwyllgor am gael ymatebion iddynt, ac mae'n cynnwys wyth astudiaeth achos o ran sut y gallai'r cynigion effeithio ar feysydd deddfwriaeth datganoledig. Mae'r llythyr yn nodi, er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod angen cydweithredu o fewn y DU mewn rhai meysydd polisi ar ôl Brexit, rhaid gwneud hyn ar sail cytundeb rhwng pawb 'ac nid ei orfodi gan Lywodraeth y DU na Senedd y DU yn erbyn ewyllys y llywodraethau a'r deddfwrfeydd eraill'.

Yn ei **lythyr** yntau, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dweud ei fod o'r farn bod yr amserlen ar gyfer ystyried cynigion y Papur Gwyn yn hollol annigonol, ac mae'n nodi, oherwydd diffyg manylder ar sut y bydd y cynigion yn gweithio'n ymarferol, nad yw'r Papur Gwyn yn cynnig llawer o gyfle i'r deddfwrfeydd datganoledig ymgysylltu'n ystyrlon. Dywed y Pwyllgor y dylai'r Bil fod wedi bod yn ganolog i feddylfryd Llywodraeth y DU ac na ddylai fod wedi'i 'ruthro' ar ddiwedd y cyfnod pontio. Mae'n nodi ei farn y dylid cyhoeddi bil drafft ar gyfer ymgynghori yn ei gylch cyn ei gyflwyno i Senedd y DU. Mae'r llythyr yn nodi 11 egwyddor o leiaf y dylai unrhyw ddeddfwriaeth eu cynnwys.

Mae hefyd yn cynnwys rhestr o gwestiynau yr hoffai'r Pwyllgor fod wedi'u gofyn i Lywodraeth y DU pe bai wedi gallu gwneud hynny cyn i'r cyfle ddod i ben o ran yr ymgynghoriad.  Mae'r llythyr yn nodi:

> Given the lack of detailed and relevant information, we are yet to conclude whether a UK Bill of the kind proposed in the White Paper is needed.

Mae'r egwyddorion a restrir yn y llythyr yn nodi y dylai unrhyw Fil:

- beidio â cheisio ail-ganoli pŵer, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy ganiatáu i Lywodraeth y DU a Senedd y DU dra-arglwyddiaethu o ran meysydd polisi sydd wedi'u datganoli;
- gynnwys darpariaethau y cytunwyd arnynt gan bob ochr, sy'n nodi strwythur llywodraethu annibynnol sy'n sicrhau cydraddoldeb rhwng holl lywodraethau'r DU a dull cadarn ar gyfer datrys anghydfodau;
- roi'r un rhyddid i lywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig amddiffyn eu dinasyddion a'u heconomïau mewn meysydd allweddol fel safonau iechyd cyhoeddus, diogelu defnyddwyr a safonau amgylcheddol ag a oedd ganddynt o'r blaen fel rhan o farchnad sengl yr UE;
- ymgorffori egwyddorion cyfansoddiadol allweddol sybsidiaredd a chymesuredd, sydd wedi llywodraethu gweithrediad y farchnad fewnol drwy aelodaeth y DU o'r UE; a
- pheidio â chael ei orfodi ar wledydd datganoledig y Deyrnas Unedig heb eu caniatâd hwy.

### 7.4.b Senedd yr Alban

**Ysgrifennodd** Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 13 Awst 2020, gan nodi ei farn gychwynnol ar y cynigion. Nododd **dystiolaeth yr oedd wedi'i chael yn y gorffennol** am Farchnad Fewnol y DU a **phapurau briffio gan ei Ymgynghorydd**, yr Athro Kenneth Armstrong.

Mae llythyr y Pwyllgor yn cymeradwyo'r farn a nodwyd gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd fod yr amserlen ar gyfer ymgynghori yn annigonol ac nad oedd yn darparu lawer o gyfle i ymgysylltu'n ystyrlon. Dywed y Pwyllgor bod cyfrifoldeb ar bob un o'r pedair llywodraeth a deddfwrfa ledled y DU i weithio'n adeiladol gyda'i gilydd i geisio datrysiad i'r mater cymhleth a heriol hwn.

Daw'r Pwyllgor i'r casgliad, er ei fod yn cydnabod manteision economaidd dim rhwystrau masnachu i fusnesau yn y DU, mae angen cydbwyso hyn â manteision cymdeithasol rheoleiddio gweithgarwch y farchnad yn effeithiol.

Mae'n nodi bod yn rhaid i unrhyw gynigion:

- ystyried y trefniadau cyfansoddiadol presennol yn y DU,
- beidio â chael eu gorfodi, a
- bod yn rhaid iddynt o leiaf fod yn seiliedig ar ddeialog gynhwysol gyda'r seneddau a'r llywodraethau datganoledig.

Mae'r llythyr yn parhau, ac mae'n codi nifer o gwestiynau a materion o ran elfennau allweddol y Papur Gwyn a sut y gallent weithio'n ymarferol. Mewn perthynas â llywodraethu'r farchnad fewnol, mae'r llythyr yn nodi, heb drefniadau llywodraethu sy'n seiliedig ar barch cyfartal rhwng pedair llywodraeth y DU mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, mae'n anodd iawn rhagweld sut y gallai'r cynigion yn y Papur Gwyn weithio tra'n parchu'r setliad datganoli.

## 7.4.c Tŷ'r Cyffredin

**Ysgrifennodd** Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (PACAC) Tŷ'r Cyffredin at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn ar 10 Awst 2020. Roedd y Pwyllgor yn mynegi pryder ynghylch amseriad a hyd yr ymgynghoriad ac yn nodi nad yw'r cyfnod ymgynghori o un mis yn gymesur â phwysigrwydd y materion yr ymdrinnir â hwy. Mae'n nodi bod angen i'r Llywodraeth sicrhau amser priodol i'r Bil gael ei ystyried gan Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y cynigion yn y Papur Gwyn i bob pwrpas yn creu materion a gedwir yn ôl newydd mewn meysydd lle mae y cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Mae'n nodi ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei gydnabod, ei ystyried a'i drafod yn agored wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy Senedd y DU.

Mae'n gofyn i'r Llywodraeth nodi a yw'n bwriadu diystyru Confensiwn Sewel os na roddir caniatâd gan y deddfwrfeydd datganoledig. Mae'n nodi, yng ngoleuni cynigion y Papur Gwyn ar lywodraethu, na all Llywodraeth y DU barhau i oedi cyn adolygu a diwygio cysylltiadau rhynglywodraethol. Mae'n nodi y dylid cyhoeddi'r adolygiad ac unrhyw gynigion diwygio drafft sy'n cyd-fynd ag ef ar frys.

### 7.4.d Tŷ'r Arglwyddi

**Ysgrifennodd** Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad at yr Arglwydd Callanan, Gweinidog o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 29 Gorffennaf 2020. Yn ei lythyr dywed y Pwyllgor nad yw wedi'i argyhoeddi ynghylch yr angen i ddeddfu o ran marchnad fewnol y DU a'i fod yn ansicr ynghylch pa broblemau yn union y mae'r Papur Gwyn yn ceisio eu datrys.

Mae'r Pwyllgor yn mynegi pryder ynghylch yr amser cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer ymgynghori ac mae'n ystyried bod angen ymgynghori ac ystyriaeth ehangach, er mwyn sicrhau y ceir y consensws gorau posibl rhwng pedair gwlad y DU. Dywed y Pwyllgor ei fod yn pryderu bod y Papur Gwyn yn ceisio ymdrin â materion economaidd heb ymgysylltu â'r materion gwleidyddol a chyfansoddiadol.

# 8. Atodiad 1: Marchnad sengl yr UE

Ar hyn o bryd, mae gweithrediad 'marchnad fewnol' y DU yn cael ei lywodraethu gan reolau, egwyddorion a phrosesau sefydliadol marchnad sengl yr UE. Bydd y gofyniad i gydymffurfio â rheolau marchnad sengl yr UE yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod pontio, er y bydd rhai o gyfreithiau'r UE yn cael eu cadw drwy Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 a Deddf yr UE (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Gallai unrhyw ymrwymiadau ar ddarpariaethau sefyllfa gydradd y cytunir arnynt rhwng y DU a'r UE fel rhan o gytundeb ar y berthynas yn y dyfodol gael effaith hefyd.

**Amcan marchnad sengl yr UE** yw sicrhau bod nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf yn symud yn rhydd o fewn aelod-wladwriaethau'r UE a rhyngddynt, tra'n lleihau neu'n dileu unrhyw rwystrau i fasnachu a symud, a chynnal lefelau uchel o warchodaeth i'r amgylchedd a defnyddwyr. Mae marchnad sengl yr UE yn ddeinamig ac mae ei rheolau a'i chwmpas wedi esblygu'n sylweddol ers ei sefydlu'n gyntaf.

## 8.1. Sectorau wedi'u cysoni a sectorau heb eu cysoni

Mae marchnad sengl yr UE, fel y rhan fwyaf o farchnadoedd mewnol eraill, ar ei ffurf symlaf, yn gweithredu dau ddull sylfaenol i leihau rhwystrau rheoleiddio rhwng tiriogaethau. Y rhain yw cysoni safonau a, lle nad yw cysoni yn berthnasol, cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r dull cysoni yn ceisio deddfu ar gyfer isafswm safonau cyffredin gofynnol ar draws holl diriogaethau'r farchnad fewnol fel bod yr un rheoliadau mewn grym ym mhobman. Mae enghreifftiau o nwyddau wedi'u cysoni ym marchnad sengl yr UE yn cynnwys dyfeisiau meddygol, offer electronig a chemegau. Mae'r **Comisiwn Ewropeaidd yn nodi** yn y mwyafrif o sectorau, bod deddfwriaeth yr UE i gysoni safonau wedi'i chyfyngu i ofynion hanfodol o ran iechyd, diogelwch a diogelu'r amgylchedd, tra bod gan rai sectorau safonau technegol mwy penodol.

Mewn sectorau nad ydynt wedi'u cysoni (h.y. lle nad yw safonau rheoleiddio cyffredin yn bodoli), mae'r UE yn ceisio lleihau rhwystrau i fasnachu drwy fabwysiadu dwy egwyddor allweddol, sef cyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu. Mae'r egwyddorion allweddol neu'r rheolau cyffredin hyn wedi'u hategu yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) - Erthyglau 26, 34-36 ar nwyddau yn arbennig a'r penodau a'r erthyglau perthnasol ar wasanaethau - ac mae deddfwriaeth ddilynol ar ryddid i symud nwyddau a gwasanaethau a chyfraith achosion Llys Cyfiawnder Ewrop wedi ymhelaethu arnynt a'u datblygu.

Mae'r egwyddor cyd-gydnabod yn nodi y dylid derbyn nwyddau a gynhyrchir yn unol â'r safonau a'r manylebau technegol mewn un diriogaeth i'w gwerthu'n gyfreithlon mewn tiriogaeth arall heb iddynt fod yn ddarostyngedig i unrhyw safonau neu ofynion technegol pellach. Er enghraifft, ar ei ffurf fwyaf sylfaenol yng nghyd-destun yr UE; dylai nwydd sy'n cael ei gynhyrchu yn yr Almaen allu cael ei werthu'n rhydd ac yn gyfreithlon yn Ffrainc heb orfod bodloni unrhyw ofynion ychwanegol. Mae eithriadau i hyn lle y gall aelod-wladwriaeth osod gofynion ychwanegol ar nwyddau o aelod-wladwriaeth arall, neu dynnu'n ôl yn llwyr o'r gwerthiant, os oes sail ddilys er budd y cyhoedd, megis risg i iechyd y cyhoedd, diogelwch cwsmeriaid, neu'r amgylchedd. Trafodir hyn ymhellach yn adran 3.

Mae'r egwyddor o beidio â gwahaniaethu yn nodi na ddylai aelod-wladwriaeth wahaniaethu yn erbyn nwyddau neu wasanaethau ar sail eu tarddiad daearyddol na'u breswylfa, ac y dylai unrhyw safonau neu reolau technegol a roddir ar waith fod yr un mor berthnasol i gwmnïau neu ddinasyddion o bob aelod-wladwriaeth. Er enghraifft, yng nghyd-destun yr UE; Ni fyddai'r Almaen yn gallu pennu safonau cynhyrchu uwch ar gyfer cwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill sy'n gwerthu nwyddau yn yr Almaen, o gymharu â'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ei chwmnïau domestig ei hun.

## 8.2. Cwmpas marchnad sengl yr UE

Mae marchnad sengl yr UE yn cwmpasu nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a phobl ond mae'n bell o fod yn gyflawn, yn enwedig mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Mae'r farchnad sengl yn ddynamig ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd, drwy ei rôl wrth fonitro cyfraith yr UE a chynnig deddfwriaeth newydd, wedi ceisio sicrhau, drwy wahanol welliannau, fod rhwystrau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i fasnachu o fewn y farchnad sengl yn cael eu lleihau.

Fodd bynnag, nid yw'r amcan o ddileu rhwystrau i fasnachu yn absoliwt ac mae'r gwaith o weithredu marchnad sengl yr UE wedi'i gyfyngu gan egwyddorion cyfansoddiadol a chytuniad allweddol. Mae'r rhain yn rhoi'r gallu i aelod-wladwriaethau, mewn rhai achosion, gyfyngu ar gysoni safonau a chyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu nwyddau.

O ran cysoni safonau, mae'n ofynnol i gynigion deddfwriaethol yr UE gydymffurfio â dwy egwyddor allweddol, sef cymesuredd a sybsidiaredd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylai cynigion fod yn ehangach na'r hyn sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â mater (cymesur) ac na ddylid cymryd camau ar lefel yr UE os gellir gwneud hynny'n effeithiol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol (sybsidiaredd). Gall aelod-wladwriaethau, unigolion, seneddau cenedlaethol ac is-wladwriaethol

herio cynigion cyfreithiol ar y ddwy sail hyn. Hyd yn oed pan gaiff safonau wedi'u cysoni eu cytuno a'u cyflwyno, yn y mwyafrif o achosion mae'r rhain yn cynnal safonau sylfaenol ac fel arfer rhoddir dewis i aelod-wladwriaethau o ran a ydynt yn dymuno mynd ymhellach na'r safonau gofynnol a bennwyd. Pan fydd safonau cyffredin yn cael eu cyflwyno drwy Gyfarwyddebau'r UE, mae aelod-wladwriaethau hefyd yn cael y rhyddid i benderfynu sut i gyflawni'r amcanion hynny o fewn eu tiriogaeth.

Mewn perthynas â chyd-gydnabod a pheidio â gwahaniaethu, mae'r TFEU yn darparu y gall aelod-wladwriaethau gyflwyno eithriadau i gyd-gydnabod neu beidio â gwahaniaethu yn erbyn nwydd mewn rhai amgylchiadau penodol gan gynnwys ar sail budd polisi cyhoeddus cyfrannol mewn perthynas â diogelu'r amgylchedd, diogelu defnyddwyr, iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a diogelu'r cyhoedd.

Er enghraifft, heriodd Cymdeithas Wisgi'r Alban ddeddfwriaeth Llywodraeth yr Alban yn aflwyddiannus ar isafswm pris ar gyfer alcohol, a oedd â'r nod o fynd i'r afael â'r canlyniadau i iechyd a'r gymdeithas sy'n deillio o yfed alcohol rhad. Honnodd Cymdeithas Wisgi'r Alban fod isafswm pris fesul uned yn groes i gyfraith yr UE, na fyddai'n effeithiol wrth fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol, ac y byddai'n cosbi yfwyr cyfrifol. Derbyniodd Llywodraeth yr Alban y byddai'r mesur yn effeithio ar y farchnad ond mynnodd fod modd cyfiawnhau hyn ar sail iechyd y cyhoedd. Cytunodd **Goruchaf Lys y DU** a dyfarnodd nad oedd y Ddeddf yn torri cyfraith yr UE a bod isafswm pris yn ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.

## 8.3. Llywodraethu'r farchnad sengl

Mae gwe gymhleth o sefydliadau sy'n goruchwylio'r broses o lywodraethu a rheoleiddio'r farchnad sengl, o'r Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop hyd at gyrff rheoleiddio a llysoedd cenedlaethol.

Y Comisiwn Ewropeaidd sydd â'r prif swyddogaeth oruchwylio mewn perthynas â gweithredu marchnad sengl yr UE. Yn ogystal â chadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y farchnad a chynnig cynigion deddfwriaethol newydd sy'n gysylltiedig â'i gweithredu, gall ddwyn achos yn erbyn aelod-wladwriaethau nad yw'n credu eu bod yn dilyn rheolau'r farchnad. Drwy Fforwm y Farchnad Sengl, mae'n casglu tystiolaeth gan randdeiliaid ynghylch gweithrediad effeithiol o'r farchnad sengl.

Mae gan Lys Cyfiawnder Ewrop rôl allweddol hefyd, fel cymrodeddwr terfynol cyfraith yr UE, wrth ddehongli erthyglau a deddfwriaeth perthnasol y TFEU. Mae wedi bod yn ffactor allweddol o ran esblygiad y farchnad sengl.